Independent Monitor

# Monitor Annibynnol

## Adroddiad Blynyddol 2015



## Cyflwyniad

Dyma drydydd adroddiad blynyddol y Monitor Annibynnol ac mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 2015.

Yn fy adroddiad diwethaf fe gyflwynais ddau argymhelliad (ynghlwm yn atodiad A) y gwnes eu hadnabod fel rhai a allai wella'r broses ddatgelu. Yn yr adroddiad hwnnw fe ofynnais hefyd i fy argymhelliad yn 2012-13 gael ei ailystyried. Roedd hyn yn cynnig cyflwyno cynnyrch newydd, tystysgrif benodol i rôl yn hytrach nac un ar sail gweithlu. Byddai hyn yn caniatáu i bobl sydd eisiau gweithio mewn rôl benodol ac a allai fel arall gael eu cau allan pe bai ystyried y gweithlu ehangach yn sail i benderfyniad y datgeliad. Rwyf wedi derbyn ymateb gan y Llywodraeth (ynghlwm yn Atodiad B) ac wedi dangos diweddariad ar bob un o fy argymhellion isod.-

### Argymhellion Adroddiad 2014:

**1. Cyflwyno graddfa amser ffurfiol ar gyfer anghytuno â datgeliad.**

Rwy'n falch bod yr argymhelliad i gyflwyno graddfa amser ffurfiol wedi'i dderbyn ac y bydd yn cael ei ystyried ymhellach. Croesawaf y cyfle i ymgysylltu â datblygu'r maes allweddol hwn yn ei bryd.

**2. Cyflwyno strwythur ffurfiol i ddatblygu argymhellion.**

Rwy'n falch bod strwythur wedi'i sefydlu erbyn hyn a bod y cyfarfod cyntaf wedi'i gynnal i fonitro cynnydd ar fy argymhellion.

## Trosolwg o'r flwyddyn

### Atgyfeiriadau.

Mae nifer yr atgyfeiriadau yr wyf wedi'u derbyn rhwng Ionawr a Rhagfyr 2015 wedi cynyddu'n sylweddol i gymharu â'r rheini a dderbyniwyd yn 2014. Cynyddodd cyfanswm nifer yr achosion a dderbyniwyd o 310 yn 2014 i 383 yn y flwyddyn adrodd hon, cynnydd o dros 23%. Er nad yw'n bosibl datgan yn bendant y rheswm dros y cynnydd hwn, credaf ei fod yn rhannol oherwydd bod argaeledd y broses monitor annibynnol wedi dod yn fwy hysbys. Am y tro cyntaf yn fy rôl rwyf wedi gwrthod adolygu ymhellach nifer o achosion yr wyf i'n ystyried eu bod wedi 'dyddio' a ble nad yw diben gwreiddiol ceisio'r dystysgrif bellach ar gael i ymgeisydd neu ble'r wyf yn credu yn rhesymol nad yw bellach ar gael. Yr achosion hyn yw'r rheini ble y mae'r anghytundeb yn cael ei wneud sawl mis, neu hyd yn oed flynyddoedd, ar ôl cyhoeddi'r dystysgrif yn wreiddiol. Mewn sawl achos ni fydd diben gwreiddiol ceisio'r dystysgrif bellach yn ddilys, a'r hyn yr wyf yn ei

olygu gan hynny yw nad yw'r swydd yn debyg o fod ar gael o hyd i'r ymgeisydd oherwydd treigl amser. Mewn rhai achosion mae'n amlwg nad oes gan yr ymgeisydd gŵyn gwirioneddol mewn perthynas â'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu ac, yn ei hanfod, eu bod yn defnyddio'r system er mwyn adnewyddu’u Tystysgrif yn rhad ac am ddim. Nid dyma ddiben rôl y MA ac yn yr achosion hyn rwyf wedi gofyn i'r ymgeisydd gadarnhau a yw'r swydd wreiddiol y cafodd y dystysgrif ei chyhoeddi ar ei chyfer yn dal ar agor iddynt. Os nad ydyw neu os nad ydynt wedi ymateb rwyf wedi cynghori'r ymgeisydd i geisio tystysgrif newydd os yw'n ymgeisio i weithio gyda phlant neu'r bregus yn y dyfodol.

### Gogledd Iwerddon

Cychwynnodd Deddf Cyfiawnder Gogledd Iwerddon ar 2 Tachwedd 2015 a'i heffaith oedd ymestyn ar rôl lawn y Monitor Annibynnol i adolygu anghydfodau datgelu a wneir yng Ngogledd Iwerddon yn yr un ffordd â Chymru a Lloegr ar hyn o bryd. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gydag Access Northern Ireland (ANI) a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon i ddatblygu proses ar gyfer delio'n effeithiol gydag unrhyw achosion a dderbynnir. Hyd yma mae nifer fechan o atgyfeiriadau wedi'u derbyn sy'n perthyn i Dystysgrifau a gyhoeddwyd gan Access Northern Ireland ac rwy'n falch bod y system sydd wedi'i sefydlu wedi rheoli'r anghydfodau hyn yn effeithiol.

### Adolygiadau Barnwrol.

Cafwyd dau achos yn ystod y flwyddyn adrodd ble y mae ymgeisydd wedi herio fy mhenderfyniad trwy geisio Adolygiad Barnwrol. Dyma'r hawl terfynol sydd ar gael i unigolyn sy'n anghytuno â'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu gan yr heddlu ar Dystysgrif Fanwl o Gofnod Troseddol. Yn y ddau achos hyn (BW v Monitor Annibynnol a PM v Monitor Annibynnol) cafodd fy mhenderfyniad ei gynnal. O ystyried mai dim ond ers 2012 y mae rôl y Monitor Annibynnol wedi bodoli, mae disgwyl y byddai'n derbyn rhyw lefel o her gyfreithiol dros amser. Rwyf wedi adolygu penderfyniad y Barnwyr gyda fy nghefnogaeth gyfreithiol er mwyn cynnwys unrhyw ddysg ohonynt o fewn penderfyniadau yn y dyfodol. Mae'r profion cyntaf hyn ar fy rôl wedi bod yn ddefnyddiol wrth gryfhau fy mhroses benderfynu.

### Ymgysylltu

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi parhau i fynychu Fforymau Datgelu Rhanbarthol a Chenedlaethol yr Heddlu, ynghyd â chyfarfodydd Grŵp Portffolio Datgelu'r Heddlu. Rwyf wedi ymweld â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn Lerpwl ac Access Northern Ireland yn Belfast. Rwy'n parhau i gwrdd yn rheolaidd gydag arweinwyr gweithredol o'r DBS, ANI a'r heddlu er mwyn adnabod materion o bryder. Fy null o weithredu yw delio â materion o'r fath wrth iddynt godi trwy gydol y flwyddyn yn hytrach nac aros am fy adroddiad blynyddol fel yr unig fodd o godi pryderon a chyfeirio gwelliannau.

Un mater o'r fath yw sut y mae'r heddlu yn geirio rhan o'u tystysgrifau datgelu. Yn 2011 cafwyd adolygiad o wybodaeth troseddolrwydd a gynhaliwyd gan Mrs Sunita Mason. Un o argymhellion ei hadroddiad oedd y dylai'r heddlu gynnwys mwy o wybodaeth, yn eu rhesymwaith ar gyfer eu testun datgelu, mewn perthynas â risg posibl y person hwnnw i'r bregus.

Roedd hwn yn symudiad cadarnhaol a fwriadwyd i helpu cyflogwyr i ddeall yn well y rhesymau dros y datgeliad. Mae lluoedd yr heddlu yn ysgrifennu rhan hon y datgeliad mewn gwahanol ffyrdd, gan arwain at anghysondebau yn yr ymdriniaeth ac yn codi pryderon gan ymgeiswyr ynglŷn â goddrychedd peth o eiriad yr heddlu. Mewn rhai achosion roedd ymgeiswyr yn datgan mai'r paragraffau hyn oedd y rheswm yr oeddynt wedi colli swydd neu wedi bod yn aflwyddiannus gyda chais yn hytrach na phresenoldeb yr union wybodaeth amdanynt ar y dystysgrif.

Er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondeb a'r annhegwch posibl hwn i ymgeiswyr rwyf wedi gofyn i'r DBS a'r heddlu ystyried dull amgen o gydymffurfio â'r argymhelliad hwn. Rwy'n falch cael

dweud bod arweiniad newydd wedi'i gyhoeddi gan y DBS ddiwedd llynedd ac rwyf wedi gofyn i heddluoedd sy'n delio ag anghydfodau i ystyried hyn wrth adolygu eu datgeliad gwreiddiol. Dros amser, dylai'r ymdriniaeth hon ostwng nifer yr anghydfodau a hefyd yn caniatáu gwybodaeth fwy cytbwys a ffeithiol i gael ei chyflwyno i gyflogwyr er mwyn iddynt hwy wneud penderfyniadau am unrhyw risg posibl.

### Prydlondeb.

Rwy'n falch cael dweud nad wyf wedi dod ar draws unrhyw broblemau sylweddol o ran faint o amser y mae lluoedd yr Heddlu yn ei gymryd i ymateb i fy ngheisiadau am wybodaeth.

Un agwedd sy'n dueddol o arafu'r broses yw darparu trawsgrifiadau'r llys. Mae crynodebau barnwyr achosion yn ddefnyddiol wrth ddeall unrhyw faterion a allai fod wedi codi yn y llys ac mae hyn yn arbennig o wir ble mae ymgeisydd, neu eu cynrychiolydd, yn datgan bod y barnwr wedi gwneud sylwadau gwrthwynebus neu fod tyst wedi'i gael yn annibynadwy.

Y broblem yma yw nad yw'r heddlu, ac yn benodol Unedau Datgelu'r heddlu, yn un o'r asiantaethau sydd â'r hawl i geisio a chasglu trawsgrifiadau'r llys o dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder cyfredol. Ymddengys bod dehongli'r arweiniad yn gwahaniaethu o amgylch y wlad ac mae gofyn i rai lluoedd geisio caniatâd gan farnwr yr achos cyn y gellir cael trawsgrifiad. Gall y broses hon gymryd amser ac mae'r anghysondeb yn achosi oedi wrth ystyried apêl ymgeisydd. Mae oedi o'r fath yn effeithio ar ymgeiswyr a'u gallu i fynd i gyflogaeth.

Gan hynny rwy'n argymell at ddibenion Datgeliad, bod yr Heddlu yn cael eu hychwanegu at restr yr asiantaethau hynny sy'n gallu cael trawsgrifiadau llys heb orfod ceisio caniatâd penodol gan farnwyr achos. **(Argymhelliad 1).**

### Samplu achosion.

Yn ystod y flwyddyn rwyf hefyd wedi ymgymryd ag ymarfer samplu o achosion fel sy'n ofynnol o dan adran 119B Deddf yr Heddlu 1997. Eleni fe adolygais ddeugain ac wyth o achosion o wyth ardal heddlu a darparu adborth i bob un ar fy nghanfyddiadau.

### Datgeliadau Trydydd Parti

Nid yw llawer o'r datgeliadau a wneir bob blwyddyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol am ymgeisydd ond yn cynnwys gwybodaeth am drydydd parti y credir ei fod yn gysylltiedig â'r ymgeisydd. Gallai hyn fod am eu bod yn byw gyda neu ganddynt fynediad i gyfeiriad yr ymgeisydd neu eu bod yn cael eu hystyried fel arall wrth risg i'r bobl hynny y byddai'r ymgeisydd yn gofalu amdanynt yn eu lleoliad gwaith. Mae enghraifft glir o hyn yn achos unigolyn yn ceisio tystysgrif er mwyn gwarchod plant yn eu cartref eu hunain.

Fe all ymddangos yn annheg i'r ymgeisydd bod gwybodaeth yn ymwneud â thrydydd parti yn cael ei chynnwys ar dystysgrif ac mae hyn yn arbennig o wir os yw'r berthynas yn hen, yn ddisylwedd neu os yw'r trydydd parti yn gwasanaethu dedfryd carchar ar hyn o bryd a chan hynny nid oes ganddynt fynediad cyfredol at fan gwaith yr ymgeisydd.

Mae fy swydd fel Monitor Annibynnol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rhoi braint o arolygu ffyrdd o weithio ar draws unedau Datgelu. Rwyf wedi nodi bod ymdriniaethau anghyson tuag at ddatgeliadau trydydd parti ar draws y wlad. Yn 2015 rwyf wedi derbyn cyfanswm o chwe deg pedwar o anghydfodau wedi'u dosbarthu fel datgeliadau trydydd parti o gyfanswm o bedwar ar ddeg o ardaloedd heddlu. Roedd dros hanner o'r datgeliadau trydydd parti yn deillio o un ardal heddlu. Er mai dim ond cyfran fechan o gyfanswm nifer y datgeliadau a wneir ar draws y wlad yr wyf yn eu gweld, mae'r ffigurau hyn yn dueddol o gefnogi fy marn bod anghysondebau ymhlith ardaloedd heddlu.

Er bod arweiniad yn ymwneud â datgeliadau trydydd parti ar gyfer heddlu wedi'i gynnwys yn y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd, byddwn yn croesawu trafodaeth ehangach gyda rhanddeiliaid i

archwilio posibilrwydd o dynhau'r arweiniad yn y maes hwn. Mae hyn yn debyg i fy argymhelliad yn 2013 ar Iechyd Meddwl ac rwy'n falch nodi iddo gael ei dderbyn a'i weithredu ar ôl hynny.

Gan hynny rwy'n argymell bod trafodaeth ffurfiol yn cael ei chynnal gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a staff y Swyddfa Gartref er mwyn datblygu ymdriniaeth fwy cyson tuag at ddatgeliadau trydydd parti a datblygiad arweiniad manylach yn y maes hwn. Mae'n bwysig hefyd bod y trafodaethau hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon. **(Argymhelliad 2.)**

## Edrych Ymlaen

Mae'n debyg y bydd elfennau o Strategaeth Eithafiaeth y Llywodraeth yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae rhan o'r strategaeth honno yn perthyn i ddatgelu, i gyflogwyr, gwybodaeth yn ymwneud â gweithgaredd eithafiaeth. Edrychaf ymlaen at rannu fy mhrofiad ac arolygiaeth o ddatgeliadau a sicrhau bod modd cyflenwi unrhyw amcanion polisi yn llwyddiannus ar y tir.

## Casgliad

Mae'r cyfnod adrodd hwn wedi bod yn fwy prysur na'r llynedd ond rwy'n falch bod fy Ysgrifenyddiaeth wedi rheoli'r gwaith ychwanegol yn effeithiol. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddaf yn parhau i weithio gyda phartneriaid ac yn gobeithio gweld datblygu'r argymhellion hynny sydd wedi'u derbyn. Y peth pwysicaf yw bod hawliau'r bregus a'r rheini sy'n ceisio gweithio gyda hwy yn cael eu hystyried yn briodol bob amser.



**Simon Pountain**

## Pwerau y mae'r Monitor Annibynnol yn gweithredu o'u mewn

Mae'r Monitor Annibynnol yn cael ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 119B Deddf yr Heddlu 1997 ac mae ganddo ddwy ddyletswydd statudol yn ymwneud â datgelu gwybodaeth ar Dystysgrif Fanwl o Gofnod Troseddol.

Yn gyntaf, yn unol ag adran 119B Deddf yr Heddlu 1997 (Deddf 1997), rhaid i'r Monitor Annibynnol adolygu sampl o achosion ble y mae gwybodaeth heb fod yn gollfarnau'r heddlu yn cael ei chynnwys, neu nid yw'n cael ei chynnwys, ar dystysgrifau manwl o gofnod troseddol o dan adran 113B(4) y Ddeddf. Diben yr adolygiadau hyn yw sicrhau cydymffurfiad ag Arweiniad Statudol y Swyddfa Gartref ar ddatgelu ac Erthygl 8 Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol.

Yn ail, pan fydd cais yn cael ei wneud am Dystysgrif Fanwl, mae manylion unigolyn yn cael eu cyfeirio at unrhyw lu heddlu a allai fod â gwybodaeth am yr unigolyn. Mae hyn yn galluogi i'r heddlu wirio yn erbyn eu cofnodion am unrhyw wybodaeth y maen nhw'n credu yn rhesymol sy'n berthnasol i ddiben penodol ceisio'r dystysgrif ac yna ystyried a ddylid ei datgelu. Os nad yw ymgeisydd yn fodlon â'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu fe allent ymgeisio i'r Monitor Annibynnol am adolygiad. O dan adran 117A Deddf yr Heddlu 1997, mae gan y Monitor Annibynnol rôl wrth adolygu'r achosion hynny ble mae'r person yn teimlo bod y wybodaeth sy'n cael ei datgelu gan yr heddlu o fewn Tystysgrif Fanwl o Gofnod Troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd naill ai yn amherthnasol i'r gweithlu y maen nhw'n ymgeisio ar ei gyfer, neu na ddylid ei datgelu.

## Gweithrediad yr Ysgrifenyddiaeth a swyddogaeth y Monitor Annibynnol

Cyflwynwyd rôl y Monitor Annibynnol wrth adolygu atgyfeiriadau am wybodaeth a ddatgelir gan luoedd heddlu gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2012. Sefydlwyd Ysgrifenyddiaeth i gefnogi'r Monitor Annibynnol i berfformio'r swyddogaeth hon ym mis Hydref 2012 ac mae bellach yn cynnwys dau aelod o staff llawn amser.

Cyn Hydref 2012 a'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yr unig hawl apelio oedd gan unigolyn a oedd yn anfodlon â'r wybodaeth a oedd yn ymddangos ar eu tystysgrif fanwl oedd i Brif Gwnstabl y llu perthnasol mewn perthynas â chywirdeb y testun. Os oedd yr ymgeisydd yn anfodlon â chanlyniad hyn neu eiriad cyffredinol y testun yna'u hunig ddewis oedd ceisio Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad datgelu, a fyddai'n gostus i'r ymgeisydd a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ran amser ac adnoddau. Mae rôl y Monitor Annibynnol bellach yn gweithredu fel haen adolygu ychwanegol cyn i'r unigolyn droi at Adolygiad Barnwrol.

Ers ei greu ym mis Medi 2012 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2015, mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi derbyn cyfanswm o 1034 o atgyfeiriadau gan unigolion sy'n pryderu am y wybodaeth a ddatgelir ar eu tystysgrifau datgelu. Mae'r papurau achos yn cynnwys tystysgrif datgelu a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gydag unrhyw ddogfennau anghydfod am y wybodaeth a ddatgelir y gallai'r ymgeisydd fod wedi'i godi gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y gorffennol. Unwaith y mae achos yn cael ei dderbyn, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gofyn i'r heddlu am wybodaeth yn ymwneud â'r achos ac i'r ymgeisydd am unrhyw sylwadau ychwanegol y mae'n dymuno eu gwneud. Ar ôl derbyn y sylwadau mae'r achos cyfeirio yn cael ei gyflwyno i'r Monitor Annibynnol ei adolygu.

Wrth wneud penderfyniad ar gynnwys gwybodaeth ar y dystysgrif, ac yn dilyn arweiniad statudol, bydd y Monitor Annibynnol yn ystyried:

1. A yw'r wybodaeth a ddarperir yn gywir;
2. A yw'r wybodaeth a ddarperir yn berthnasol i ddiben penodol ceisio'r dystysgrif (yn dilyn newidiadau polisi yn 2012 mae hyn bellach yn gyffredinol ar gyfer gwaith o fewn gweithluoedd plant neu oedolion yn hytrach nac yn benodol i rôl arbennig); ac
3. A ddylai’r wybodaeth gael ei datgelu, gan gynnwys;

a. Beth yw nod cyfreithlon y datgelu;

b. A yw'r datgeliad yn angenrheidiol i gyflawni'r nod cyfreithlon hwnnw; ac

c. A yw'r datgeliad yn gymesur, yn bwrw cydbwysedd teg rhwng hawliau'r ymgeisydd a hawliau'r rheini y mae'r datgeliad yn ceisio'u hamddiffyn.

Mae'r holl feini prawf yn cael eu hystyried yn gyfartal, nid oes pwysau. Unwaith y mae penderfyniad yn cael ei wneud bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a phrif swyddog yr heddlu perthnasol yn eu hysbysu o benderfyniad y Monitor Annibynnol.

Yn ychwanegol at ddarparu penderfyniadau ar geisiadau am adolygiad o ddatgeliad prif swyddog o wybodaeth gymeradwy, mae'r Monitor Annibynnol wedi ymgymryd hefyd â'r ymarfer sampl gofynnol o dan s119B (5) Deddf 1997. Mae'r ymarfer wedi cynnwys samplu gwybodaeth yr heddlu a ddarperir ar Dystysgrifau Manwl ar gyfer nifer o luoedd.  Yn dilyn yr adolygiadau hyn mae'r Monitor Annibynnol wedi darparu adborth i luoedd i sicrhau ansawdd a chydymffurfiad ag Arweiniad Statudol.

## Eglurhad


Mae fy rôl yn wahanol i'r Adolygydd Cwynion Annibynnol ar gyfer Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fel penodai statudol, fy rôl yw ystyried apeliadau gan ymgeiswyr sy'n anghytuno â chynnwys gwybodaeth nad yw'n ymwneud â chollfarnau o fewn y tystysgrifau datgelu manwl a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae angen tystysgrifau o'r fath ar gyfer y rheini sy'n dymuno gweithio gyda phlant ac oedolion bregus ac o fewn rhai meysydd penodol eraill megis gyrru tacsi.

Mae'r Adolygydd Cwynion Annibynnol yn adolygu cwynion am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn cynnig cyngor adeiladol am y ffordd y mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn delio â chwsmeriaid a sut y mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn trin cwynion.

## Atgyfeiriadau Achos Monitor Annibynnol: Crynodeb 2015


Dengys y siart isod canlyniadau'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Monitor Annibynnol yn 2015 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae hefyd yn dangos yr un wybodaeth am y cyfnod rhwng mis Medi a Rhagfyr 2012 yn dilyn cyflwyno rôl y Monitor Annibynnol. Mae 'cynnal' yn cyfeirio at yr achosion hynny ble'r wyf wedi cefnogi datgeliad yr heddlu yn llwyr.

### Siart 1




Mae'r siart a ganlyn yn dadansoddi'r categori 'canlyniad arall' uchod i ddangos y ffordd y deliwyd â'r achosion.

### Siart 2




Yn gyffredinol gellir gweld bod cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu'n sylweddol ar niferoedd y llynedd. Y prif wahaniaeth y llynedd yw nifer yr achosion yr wyf i wedi'u hystyried sydd wedi dyddio a ble nad yw diben gwreiddiol ceisio'r dystysgrif bellach yn bodoli, ac nid wyf wedi'u hadolygu ymhellach (50 achos). Fel yr esboniwyd ynghynt yn yr adroddiad hwn mae'r rhain yn achosion, oherwydd hyd yr amser rhwng cyhoeddi'r dystysgrif a chychwyn yr anghydfod, mae'n rhesymol credu nad yw diben ceisio'r dystysgrif bellach yn bodoli. Mae datblygu'r categori newydd hwn yn dangos sut y mae fy rôl yn esblygu ac yn parhau i wneud y gorau o fy swydd oruchwylio. Mae categori i'w weld yn y siart uchod hefyd ar gyfer achosion wedi'u diwygio. O bryd i'w gilydd, ceir achosion ble'r wyf yn teimlo bod angen diwygio datgeliad yn hytrach na dileu testun. Gallai hyn fod ble y byddai dileu yn gadael y testun yn anghywir yn ramadegol neu ble'r wyf yn meddwl bod y datgeliad wedi'i eirio'n oddrychol. Yn yr achosion hyn byddaf yn trafod gyda'r Prif Swyddog er mwyn cytuno ar ffurf ddiwygiedig ar y geiriau. Nid oes unrhyw achosion sy'n parhau o flynyddoedd blaenorol.

Mae'r siart a ganlyn yn dangos cymhariaeth o'r gweithluoedd y mae ceisiadau am adolygiadau wedi'u derbyn ar eu cyfer.

Gellir gweld o'r siart bod mwyafrif yr anghydfodau gan ymgeiswyr sydd wedi ymgeisio i weithluoedd Plant ac Oedolion. Yn yr achosion hyn mae mwy o wybodaeth yn cael ei hystyried gan yr heddlu oherwydd hygludedd ehangach y dystysgrif a chan hynny yn aml yr hyn y mae unigolion yn pryderu yn ei gylch yw nad yw'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu yn berthnasol i'r rôl benodol yr ymgeisir ar ei chyfer.

## Siart 3




**Sylwer** ni chofnodwyd unrhyw anghydfodau yn y categori 'Gweithlu arall' yn 2012 neu 2013 gan fod Gyrwyr Tacsi yn cael eu hystyried yn rhan o'r gweithlu Plant yn ystod y blynyddoedd hynny.

## Crynodeb o argymhellion

### Argymhelliad 1.

At ddiben Datgelu, dylid ychwanegu'r heddlu at restr o'r asiantaethau hynny sy'n gallu sicrhau trawsgrifiadau llys heb geisio cymeradwyaeth o flaen llaw gan farnwr yr achos.

### Argymhelliad 2.

Bod trafodaeth ffurfiol yn cael ei chynnal rhwng rhanddeiliaid o fewn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r heddlu, er mwyn datblygu ymdriniaeth fwy cyson tuag at ddatgeliadau trydydd parti trwy ddatblygu arweiniad manylach.

# Atodiad A:
# Argymhellion a wnaed mewn Adroddiad Blynyddol blaenorol.

## Argymhellion 2014

**1. Cyflwyno graddfa amser ffurfiol ar gyfer anghytuno â datgeliad**

Fy argymhelliad yw y dylid cyflwyno graddfa amser statudol ar gyfer codi anghydfod. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi sylwi bod nifer sylweddol o anghydfodau wedi'u codi gryn amser ar ôl cyhoeddi'r dystysgrif ddatgelu honno. Mewn rhai achosion mae hyn wedi bod hyd at bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r dystysgrif ddatgelu a, gan amlaf, bydd diben gwreiddiol ceisio'r dystysgrif wedi darfod gan ei bod hi'n annhebygol bod y rôl yr ymgeisir amdani yn cael ei chadw yn agored i berson dros gyfnod o amser mor hir.

Yn yr achosion hyn, os yw'r ymgeisydd yn dymuno ceisio gwaith o fewn, neu wirfoddoli ar gyfer, un o'r dibenion penodol sy'n gofyn am Dystysgrif Datgeliad Manwl (gyda gwiriad rhestr waharddedig neu hebddi) byddai'n fwy priodol iddynt ymgeisio am dystysgrif newydd. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael ar y pryd i'r heddlu yn cael ei hystyried, gan ddefnyddio profion perthnasedd cyfredol â'r arweiniad statudol a chyfraith achosion diweddaraf, cyn gwneud penderfyniad yn ymwneud â geiriad unrhyw ddatgeliad arfaethedig.

Gan hynny byddai'n ymddangos yn rhesymol i mi pe na bai ymgeisydd yn fodlon â chynnwys ei dystysgrif datgelu, dylai fod gofyn iddo godi anghydfod o fewn cyfnod amser sydd wedi'i ddiffinio'n glir. Pan fydd cais yn cael ei wneud am rôl benodol mae'n rhesymol tybio y byddai'r swydd yn cael ei chadw yn agored i ymgeisydd llwyddiannus wrth i wiriadau cefndir gael eu cynnal. Credaf ei bod hi'n rhesymol tybio, ar ôl ychydig, y byddai cyflogwr yn llai tebygol o gadw swydd wag yn agored. Rwyf wedi ystyried faint o amser y dylid ei ganiatáu ar gyfer anghydfod a byddwn yn awgrymu y byddai swydd yn annhebygol o gael ei chadw yn agored am fwy na chwe mis. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn annog ymgeiswyr ar hyn o bryd i gyflwyno anghydfod yn erbyn eu tystysgrif datgelu o fewn nawdeg diwrnod ond nid yw hyn ar fandad. Credaf fod hyn yn raddfa amser rhesymol a byddwn felly yn croesawu cyflwyno graddfa amser statudol ar gyfer anghydfodau o dri mis calendr.

**2. Cyflwyno strwythur ffurfiol i ddatblygu argymhellion.**

Gan mai dyma fy Ail Adroddiad Blynyddol rwy'n awyddus bod strwythur yn cael ei datblygu i sicrhau bod argymhellion o'r adroddiad hwn a fy adroddiad blaenorol yn cael eu datblygu yn amserol. Byddai'r strwythur hwn yn adnabod perchnogaeth ar bob argymhelliad ac yn cofnodi cerrig milltir a chynnydd. Bydd hyn wedyn yn sicrhau bod diben gwneud yr argymhellion, h.y. amddiffyn hawliau'r bregus a'r rheini sy'n ceisio gweithio gyda hwy, yn cael eu cynnal. Yna adroddir ar y cynnydd hwn mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

## Atodiad B:

Home Office

Sarah Newton AS
Gweinidog Unigolion Agored i Niwed,
Diogelu a Gwrthderfysgaeth

2 Marsham Street
Llundain SW1 4DF
www.gov.uk/home-office

Simon Pountain
Monitor Annibynnol ar gyfer Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
d/o Ysgrifenyddiaeth Monitor Annibynnol
6 Floor, Fry
2 Marsham Street
Llundain
SW1 4DF

28 Mawrth 2017

Annwyl Simon,

Diolch i chi am eich Adroddiad Blynyddol 2015 y bwriadaf ei gyhoeddi ar gov.uk yn fuan. Rwy'n ddiolchgar am eich gwaith pwysig yn ystod y cyfnod hwn. Rhoddodd eich adroddiad gipolwg defnyddiol i ddatgelu gwybodaeth yr heddlu ar dystysgrifau manwl o gofnod troseddol (ECRC). Bydd yr argymhellion yn eich Adroddiad 2015 yn cael eu hystyried yn ofalus. Yn eich adroddiad fe roesoch sylwadau pellach ar yr argymhellion a wnaed yn eich adroddiadau blaenorol a'r ddau argymhelliad a wnaed yn eich adroddiad yn 2014. Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhain ac wedi amlinellu ein hymateb isod.

**Argymhellion o Adroddiad Blynyddol 2014**
Eich argymhelliad cyntaf yw cyflwyno cyfyngiad amser statudol i unigolion sy'n dymuno cyflwyno anghydfod gyda'r Monitor Annibynnol. Rydych chi'n rhoi enghraifft o anghydfod yn cael ei godi ryw bum mlynedd ar ôl cyhoeddi tystysgrif sy'n ymddangos yn ddefnydd amhriodol ar y broses anghydfod. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn. Bydd hi'n angenrheidiol dangos bod unrhyw gyfyngiad amser yn cael ei osod yn briodol er mwyn osgoi effeithio er gwaeth ar unigolion sy'n codi anghydfodau dilys. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion roi'r diweddaraf i chi ar gynnydd gydag adnabod slot deddfwriaethol addas.

Eich ail argymhelliad yw gweithredu proses i fonitro cynnydd yn erbyn eich argymhellion. Mae fy swyddogion wedi sefydlu hyn ac yn gweithio gyda chi i roi'r diweddaraf i chi ar y cynnydd.

**Argymhellion o Adroddiad Blynyddol 2012-2013**
Ymatebodd Arglwydd Bates i'r argymhellion a wnaed yn eich adroddiad blaenorol yn ei lythyr ym mis Chwefror 2015. Fel y gwyddoch, fe dderbyniodd eich argymhelliad y dylid tynnu sylw lluoedd yr heddlu ymhellach i'r arweiniad yn y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn ymwneud ag ystyried yr wybodaeth iechyd meddwl i'w datgelu. Ymhellach i hyn, cafodd yr arweiniad statudol ar ddatgelu, y mae'n rhaid i brif swyddogion ei ystyried, ei ailgyhoeddi yn 2015 gyda deunydd ychwanegol ar y mater hwn.

Roedd eich ail argymhelliad yn cynnig na ddylai'r Gwasanaeth Diweddaru fod ar gael mewn perthynas â galwedigaethau yn y cartref. Nododd ymateb Arglwydd Bates na allai'r Llywodraeth gytuno gyda'r argymhelliad. Rwy'n cefnogi'r farn honno. Er ei bod hi'n wir na all y Gwasanaeth Diweddaru ddarparu ar gyfer newidiadau mewn perthynas ag aelodau eraill y cartref, mae'r gwasanaeth wrth gwrs yn cynnig gwybodaeth bwysig am yr ymgeisydd unigol. Mae'r DBS yn edrych ar gamau i sicrhau bod cwmpas y Gwasanaeth Diweddaru yn glir i gyrff cofrestredig a chyflogwyr. Ble fo'n briodol, fe allai cyflogwr ddymuno gofyn am dystysgrif ffres er mwyn gwirio ar aelodau eraill y cartref.

Eich trydydd argymhelliad oedd cyflwyno math newydd o dystysgrif gyda'r cais yn cael ei gyfyngu i un swydd benodol. Eto, nododd ymateb Arglwydd Bates na allai'r Llywodraeth gytuno â'r argymhelliad. Rwyf yn cefnogi'r farn honno. Bwriad tystysgrifau cofnod troseddol yw bod yn berthnasol i gyflogwyr o fewn y sector ble y ceisir am waith. Byddai cyflwyno tystysgrifau penodol i swydd yn gofyn am gynnal disgrifiadau manwl o'r dyletswyddau i'w cynnal er mwyn hysbysu penderfyniadau ynglŷn â pha wybodaeth yr heddlu, os o gwbl, fyddai'n berthnasol ac y dylid ei datgelu. Byddai hefyd yn cyfyngu ar y gallu i gludo'r dystysgrif mewn ffordd sy'n groes i'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012.

Yn olaf, fe wnaethoch drafod arfer parhaus rhai cyflogwyr neu gyrff cofrestredig i awgrymu y byddent yn cyflogi unigolyn pe bai peth gwybodaeth yn cael ei thynnu o dystysgrif datgelu. Mae hyn yn amlwg yn annerbyniol ac rwyf wedi gofyn i'r DBS gryfhau arweiniad cyfredol i sicrhau bod hyn yn gwbl glir.

**Sarah Newton AS**

## Tabl o argymhellion blaenorol.

| Argymhelliad | Blwyddyn ei wneud | statws | Sefyllfa gyfredol |
|---|---|---|---|
| Iechyd Meddwl | 2013 | Wedi'i dderbyn | Mae'r arweiniad statudol bellach wedi'i ddiwygio yng nghyswllt achosion Iechyd Meddwl ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Awst 2015. |
| Galwedigaethau yn y Cartref | 2013 | Wedi'i dderbyn yn Rhannol | Diwygiodd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd arweiniad yr ymgeisydd a RB yn 2015 a hyrwyddo hyn yn Newyddion Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |
| Gweithlu v Swydd yr Ymgeisir Amdani | 2013 | Heb ei Dderbyn | Mater wedi'i godi eto yn Adroddiad Blynyddol 2014. |
| Cyrff Cofrestredig | 2013 | Wedi'i dderbyn | Gweithiodd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda NACRO a CIPD i ddatblygu arweiniad ar gyfer cyflogwyr ar sut i drin ac asesu gwybodaeth sy'n ymddangos ar dystysgrif ddatgelu. |
| Cyfyngiad Amser Statudol ar gyfer anghydfodau | 2014 | Wedi'i dderbyn ac yn aros am ddatblygiad pellach. | |
| Proses ffurfiol i adolygu argymhellion | 2014 | Wedi'i dderbyn. | |
| Unedau Datgelu'r Heddlu i gael mynediad at Drawsgrifiadau Llys | 2015 | Yn aros | |
| Datblygu arweiniad ar Ddatgeliadau Trydydd Parti | 2015 | Yn aros | |